Ffoneg mewn mwd

Trosolwg

Mae'r plant yn archwilio synau llythrennau a ffoneg gynnar drwy chwarae'n ymarferol â mwd, gan atgyfnerthu adnabyddiaeth o synau-symbolau mewn ffordd hwyliog a chofiadwy.



Camau'r gweithgaredd

1. Gwahoddwch y plant i helpu i gymysgu pridd a dŵr i greu mwd llyfn, gan drafod y gwead wrth iddynt droi'r cymysgedd.
2. Taenwch haenen wastad o fwd ar yr arwyneb.
3. Dywedwch sŵn llythyren yn uchel (e.e. /m/).
4. Gofynnwch i'r plant ddefnyddio eu bysedd neu frigau i dynnu llun o'r llythyren gyfatebol yn y mwd.
5. Dywedwch y sŵn gyda'ch gilydd wrth iddynt amlinellu'r llythyren.
6. Estynnwch y gweithgaredd drwy enwi geiriau sy'n dechrau â'r sŵn hwnnw (e.e., m am mwd, mat, menig).

Diogelwch a chlirio

1. Chwiliwch am gerrig neu eitemau miniog yn y pridd
2. Goruchwyliwch y broses gymysgu a'r broses o selio bagiau
3. Golchwch ddwylo ar ôl chwarae

Deilliannau dysgu

- Meithrin ymwybyddiaeth ffonemig
- Cryfhau rheolaeth echddygol fanwl
- Hybu dysgu amlsynhwyraidd
- Yn Annog hyder wrth ddarllen yn gynnar

Gweithgaredd amgen heb annibendod

- Defnyddiwch lwy i roi'r mwd llyfn a grëwyd gan y plant mewn bagiau â sip (nes bod y bagiau'n ¼ llawn), seliwch nhw'n dynn, a rhowch dâp dros y man lle mae'r bagiau yn agor.
- Gall y plant ysgrifennu neu amlinellu'r llythrennau drwy bwyso ar y bag â'u bys.
- Dywedwch sŵn y llythyren yn uchel wrth i'r plant ei ffurfio.
- Ysgwydwch neu llyfnhewch y bag yn ofalus i gael gwared â'r llythyren ac ailadrodd y gweithgaredd.